| | |
|---|---|
| **Rhif yr Hysbysiad Preifatrwydd:** | {Cliciwch yma} |
| **Dyddiad y Crëwyd:** | {Cliciwch yma} |
| **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | {Cliciwch yma} |
| **Rhif y Fersiwn:** | {Cliciwch yma} |
| **Rhif Adnabod y Ddogfen:** | {Cliciwch yma} |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden |
| **Man Gweithio:** | Hamdden |
| **Manylion Cyswllt:** | Andrea Taylor |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Nofio Ysgol |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd cyngor bwrdeistref sirol Caerffili yn defnyddio gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r rhaglen Nofio Ysgol. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

### Categorïau o ddata personol a geir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

Enw, dyddiad geni, ysgol a grŵp blwyddyn y disgybl, a manylion unrhyw anghenion meddygol neu dysgu ychwanegol sy'n berthnasol.

### Ffynhonnell y data personol

Rhannwyd yr wybodaeth hon â chyngor bwrdeistref sirol Caerffili gan ysgol y plentyn at ddibenion gwersi nofio drwy'r rhaglen nofio Nofio Ysgol.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Mewn perthynas â'r rhaglen Nofio Ysgol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu gwybodaeth gofrestru, cynnydd dysgu ac unrhyw wybodaeth am anghenion meddygol neu ddysgu ychwanegol at ddibenion hyfforddiant a gweinyddu'r rhaglen Nofio Ysgol.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Mae rhwymedigaeth gytundebol i brosesu'r wybodaeth, gan fod contract rhwng cyngor bwrdeistref sirol Caerffili ac ysgol y plentyn i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae gan yr ysgol rwymedigaeth statudol i ddarparu addysg gorfforol o dan Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru,

a sefydlwyd dan Adran 108 Deddf Addysg 2002, ac mae gwersi nofio yn rhan o'r cwricwlwm addysg gorfforol. Gweler hysbysiad preifatrwydd yr ysgol am ragor o wybodaeth.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Ddiogelu Data, mae'n rhaid nodi amod dilys ar gyfer prosesu, a amlinellir isod:

1b. mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer perfformio contract y mae'r testun data yn barti iddo neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn ymrwymo i gontract;

Mae Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw data personol 'categori arbennig'. Os bydd unrhyw rhan o'r wybodaeth a ddarperir gennych yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori sensitif neu arbennig, mae'n rhaid nodi amod ychwanegol ar gyfer prosesu hyn, a amlinellir isod:

2g. mae angen prosesu am resymau o fudd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau testun y data.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd staff hamdden awdurdodedig, sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant neu weinyddu'r rhaglen Nofio Ysgol.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Rhennir gwybodaeth ystadegol ddienw gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi datblygu'r rhaglen Nofio Ysgol. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu canfod unigolion o'r wybodaeth a ddarperir.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol a gedwir mewn perthynas â'r rhaglen Nofio Ysgol gydag unrhyw sefydliad arall oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl.

Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Cedwir y wybodaeth am gyfnod o 2 flynedd.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

### Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk. Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn gwrthwynebu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn trin eich data, mae gennych hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mewn perthynas â'r rhaglen Nofio Ysgol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu gwybodaeth gofrestru, cynnydd dysgu ac unrhyw wybodaeth am anghenion meddygol neu ddysgu ychwanegol at ddibenion hyfforddiant a gweinyddu'r rhaglen Nofio Ysgolion.

Er y gellir rhannu gwybodaeth ystadegol ddienw gydag eraill, ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy gydag unrhyw sefydliad arall oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol: